

# Cyflwr Chwarae 2025

www.chwarae.cymru

# 1. Cyflwyniad

Mae Chwarae Cymru wedi cynnal adolygiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) a Chynlluniau Gweithredu Chwarae awdurdodau lleol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2025.

Dyma'r degfed adolygiad cenedlaethol i Chwarae Cymru ei gwblhau. Mae'n ehangu ar yr adroddiad Cyflwr Chwarae a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2000, ac a ddiweddarwyd gan Chwarae Cymru wedi hynny yn 2003, 2006, 2009 a 2011. Ers cychwyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae Chwarae Cymru wedi adolygu'r ADCh a gyflwynwyd yn 2013, 2016, 2019 a 2022. Rydym hefyd wedi adolygu amrywiol Adroddiadau Cynnydd yn ystod y blynyddoedd rhwng y rhain.

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn rhwng mis Awst a mis Hydref 2025. Mae Chwarae Cymru wedi adolygu ADCh, Crynodebau Gweithredol a Chynlluniau Gweithredu Chwarae o'r 22 awdurdod lleol. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r:

- cefndir polisi
- canllawiau statudol ac adnoddau ategol yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae
- prosesau gofynnol yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae
- Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- y crynodeb o negeseuon allweddol a'r prif themâu sy'n codi o'r ADCh ar gyfer 2025
- argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Ceir dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) o'r themâu digonolrwydd chwarae yn Atodiad 1.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth benodol am agweddau penodol o'r ADCh:

- Cysylltiadau gyda Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cynhwysiant plant anabl a phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Chwarae mewn addysg ac ysgolion
- Cynllunio cymdogaethau.

Adroddir am hyn yn hwyrach yn atodiadau 2 i 5.

Yn ogystal ag adolygu pob ADCh a Chynllun Gweithredu, mae'r dadansoddiad hwn wedi ei gefnogi gan drafodaethau, cefnogaeth trwy weithdai ac ymgysylltu gyda swyddogion arweiniol digonolrwydd chwarae ar draws y mwyafrif o awdurdodau lleol.

Bwriedir i adroddiad Cyflwr Chwarae 2025 hysbysu camau gweithredu a gweithgarwch i'r dyfodol.

## 2. Cefndir polisi

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwarae plant ers datganoli, gan gyhoeddi polisi chwarae cenedlaethol cyntaf y byd yn 2002. Fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu er mwyn cefnogi chwarae plant. Gosodwyd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu a, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae. Mae hyn yn cael ei adnabod bellach fel y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Bydd Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno bob tair blynedd. Cyflwynwyd y cyntaf o'r ADCh teirblynyddol hyn ym mis Mawrth 2013. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn cynhyrchu a chyflwyno Cynlluniau Gweithredu Chwarae blynyddol ac yn adrodd ar y rhain trwy Adroddiadau Cynnydd blynyddol.

Rhwng 2019 a 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad manwl a chydweithredol o'i gwaith polisi chwarae. Roedd dwy nod i'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae:

- Asesu gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi chwarae
- Cynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda sut y mae am ddatblygu a gyrru'r agenda chwarae yn ei blaen.

Rheolwyd yr adolygiad gan Isadran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd bwrdd prosiect mewnol o swyddogion traws-bolisi Llywodraeth Cymru, a ddarparodd rôl craffu cyffredinol am y prosiect yn y cyfnodau cyntaf. Sefydlwyd grŵp llywio traws-broffesiynol o arbenigwyr chwarae a gwaith chwarae, a swyddogion polisi o Lywodraeth Cymru, i gefnogi'r adolygiad.

Roedd digonolrwydd chwarae ac ariannu yn un o themâu'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Un o argymhellion allweddol yr adroddiad oedd sicrhau bod offerynnau polisi Llywodraeth Cymru'n cynnwys mesurau i gefnogi gallu plant i wneud y gorau o gyfleoedd i chwarae.

Mewn ymateb, trwy weithio ar y cyd gyda Chwarae Cymru a swyddogion arweiniol chwarae mewn awdurdodau lleol, adolygodd Llywodraeth Cymru'r gyfres o ddogfennau ADCh a'u diweddaru. Cyhoeddwyd ffurflen ADCh, ynghyd â thempledi perthnasol eraill a *Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: pecyn cymorth asesu* diwygiedig. Cafodd y cyfarwyddyd statudol ar gyfer awdurdodau lleol, *Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae*, ei ddiwygio a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2025.

# 3. Cyfarwyddyd ac offerynnau ategol y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Mae *Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae* yn gyfarwyddyd statudol i awdurdodau lleol ar asesu ar gyfer a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Mae'n cynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio â'i dyletswyddau o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae'n rhestru'r Materion y dylid eu hystyried:

- **Mater A:** Poblogaeth
- **Mater B:** Diwallu anghenion amrywiol
- **Mater C:** Y lle sydd ar gael i blant chwarae
- **Mater Ch:** Darpariaeth dan oruchwyliaeth
- **Mater D:** Codi tâl am ddarpariaeth chwarae
- **Mater Dd:** Mynediad i le/darpariaeth
- **Mater E:** Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae
- **Mater F:** Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys
- **Mater Ff:** Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol.

Datblygwyd y *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae* yn wreiddiol yn 2012 i ddarparu cefnogaeth i bob awdurdod lleol wrth gyflawni eu dyletswyddau, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012. Paratowyd y pecyn cymorth gan Chwarae Cymru a Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â darparwyr chwarae ledled Cymru fel modd o gynorthwyo gyda gweithredu'r ddyletswydd.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyda dros 100 o griteria ar draws y naw Mater. Mae'r ffurflen hon wedi'i hadolygu a'i diweddaru ar gyfer cyfnodau asesu dilynol er mwyn sicrhau bod newidiadau mewn polisi, deddfwriaethau a rhaglenni cyllido wedi eu cynnwys a'u diweddaru. Ar gyfer 2025, mae'r naw Mater wedi eu mapio o dan bedair thema:

### Gwybodaeth poblogaeth

Mae'r thema hon yn ymwneud â:

- **Mater A:** Y nifer o blant sydd ym mhob ystod oedran o fewn eu hardal
- **Mater B:** Anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd o fewn eu hardal
- **Mater D:** Os codir tâl am ddarpariaeth chwarae a ble y codir tâl

### Y mannau ble bydd plant yn chwarae

Mae'r thema hon yn ymwneud â:

- **Mater C:** Y gofod ble gall plant chwarae, yn cynnwys gofodau agored, ac unrhyw ofod arall
- **Mater Dd:** Mesurau traffig a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad i chwarae
- **Mater Ff:** I ba raddau y mae polisïau addysg a chynllunio datblygu lleol yn ystyried yr angen i gyfoethogi cyfleoedd chwarae i blant

### Darpariaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r thema hon yn ymwneud â:

- **Mater Ch:** Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth
- **Mater E:** Hyfforddiant gwaith chwarae a datblygu'r gweithlu

### Polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth

Mae'r thema hon yn ymwneud â:

- **Mater Dd:** Mesurau a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad i chwarae, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau
- **Mater E:** Cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer y gweithlu chwarae
- **Mater F:** Lefel ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol
- **Mater Ff:** I ba raddau y mae polisïau eraill awdurdod lleol yn ystyried yr angen i gyfoethogi cyfleoedd chwarae i blant.

# 4. Adolygiad 2025 o Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – prosesau gofynnol

Mae *Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae* yn amlinellu nifer o egwyddorion sylfaenol y mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol weithio iddynt wrth ymateb i'w dyletswyddau i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Yn ogystal, ceir prosesau gofynnol i bob awdurdod lleol eu mynegi trwy eu Crynodeb Weithredol ADCh:

- Gweithio mewn partneriaeth
- Ymgynghoriad a chyfranogiad
- Mwyafu adnoddau.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r adolygiad o ADCh 2025 yn dynodi bod hwn yn faes lle mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi gwella ers 2022. Dynododd canfyddiadau adolygiad 2022 bod ansicrwydd a newidiadau a achoswyd gan y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar weithio mewn partneriaeth a chydweithredu wrth baratoi'r ADCh a'r Cynlluniau Gweithredu.

Mae'n ymddangos bod y ffurflen ADCh ddiwygiedig wedi cynnig cyfle i gydweithio ar draws adrannau awdurdodau lleol ar gyfer y prosesau asesu yn ogystal â chynllunio gweithredu. Mae nifer o ADCh yn adrodd am gynnal gweithdai a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Ble fo'r rhain wedi'u cynnal, ceir enghreifftiau o gydweithredu da rhwng adrannau o fewn awdurdodau lleol. Yn ogystal, yn yr ardaloedd hyn, cyfeirir yn amlach at sefydlu Grwpiau Digonolrwydd Chwarae, neu debyg, ar draws yr ADCh a'r Cynlluniau Gweithredu Chwarae.

Yn yr ardaloedd hynny ble maent yn bresennol ac yn chwarae rhan weithredol wrth gefnogi chwarae, mae cynghorau tref a chymuned yn parhau i fod yn bartneriaid pwysig. Yn ogystal â darparu gwasanaethau'n uniongyrchol mewn ambell achos, ceir enghreifftiau o ariannu cyfatebol ar gyfer cynlluniau chwarae gwyliau ac ardaloedd chwarae ag offer sefydlog.

Mae partneriaid trydydd sector yn dal i gael eu cyfeirio atynt ar draws lawer o ADCh fel darparwyr gwasanaethau pwysig. Fodd bynnag, mae hyn yn dueddol o ganolbwyntio ar wasanaethau uniongyrchol neu brosiectau mewn

cymunedau penodol neu ar gyfer cefnogaeth wedi ei dargedu neu wasanaethau arbenigol. ’Does dal fawr ddim tystiolaeth i awgrymu bod awdurdodau lleol yn eu cefnogi’n ariannol i dalu costau isadeiledd craidd. Felly, mae cynaladwyedd yn dal i fod yn fater llosg i’r sefydliadau hyn.

## Mwyafu adnoddau

Mae’n ymddangos y gwnaethpwyd cynnydd wrth fwyafu’r adnoddau sydd ar gael i gefnogi cyfleoedd plant i chwarae ar draws y mwyafrif o awdurdodau lleol. Er y ceir enghreifftiau o ailddyrannu cyllideb i gynyddu capasiti ac osgoi dyblygiad, dylid nodi nad yw nifer o ardaloedd wedi gweld cynnydd mewn cyllid ar gyfer chwarae ers 2022. Ble mae fwyaf amlwg bod cyllid yn cael ei ddefnyddio’n dda, ceir swyddog digonolrwydd chwarae penodedig, neu debyg.

Mae rolau, cyfrifoldebau ac agwedd swyddogion arweiniol chwarae tuag at ddigonolrwydd chwarae’n dal i amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Fel y nodwyd yn yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, mae’r gallu i wneud defnydd o ariannu’n dal i berthyn yn agos i bresenoldeb swyddog arweiniol digonolrwydd chwarae penodedig sydd â digon o awdurdod ac sydd ar lefel briodol i wneud penderfyniadau a bod yn ddylanwadol. Mae’n heriol i awdurdodau lleol gynnal grwpiau strategol a monitro, cael mynediad i gyllid a chyd-drafod gyda rhanddeiliaid i ddyrannu cyllid yn ddoeth ble nad oes swyddog sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae. Ble fo awdurdodau lleol wedi buddsoddi mewn capasiti datblygu chwarae a seilwaith digonolrwydd chwarae, mae mwy o ymchwil manwl a gweithio ar y cyd yn digwydd.

Ar hyn o bryd, nid oes ffrwd ariannu genedlaethol benodol gan awdurdodau lleol ar gyfer chwarae neu ar gyfer swyddogaethau digonolrwydd chwarae. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyllid refeniw a chyfalaf yn aml i awdurdodau lleol ar gyfer digonolrwydd chwarae trwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (AWPOG). Mae’r dyraniadau AWPOG diweddaraf ar gyfer 2025 wedi canolbwyntio ar gefnogi awdurdodau lleol i gwblhau eu ADCh, gyda dyraniad ychwanegol i ymateb i gamau gweithredu digonolrwydd chwarae. Mae’r adolygiad o ADCh yn dynodi bod awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi bod y gronfa hon wedi ei dyrannu ar ddechrau’r flwyddyn ariannol. Fe wnaeth hyn alluogi ymateb mwy strategol ac ystyrlon. Mae gan Lywodraeth Cymru raglenni allweddol sy’n cefnogi chwarae, datblygu chwarae, a darpariaeth chwarae ar draws awdurdodau lleol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- **Y Grant Plant a Chymunedau** – sy’n cefnogi prosiectau chwarae cynhwysol, gan sicrhau mynediad i blant sy’n wynebu anfanteision penodol.
- **Dechrau’n Deg** – mae ariannu wedi ei integreiddio gyda darpariaeth chwarae’r blynyddoedd cynnar, i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac emosiynol ar gyfer plant dan bump oed.
- **Teuluoedd yn Gyntaf** – sy’n cefnogi gwaith datblygu.

Un nodwedd benodol ar draws y ffurflenni ADCh yw’r effaith gafodd y Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae wrth gefnogi twf mewn seilwaith i gefnogi trosglwyddiad yn lleol a gweithio’n fwy strategol. Mae cyllid Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae, a ddyrannwyd trwy’r Grant Plant a Chymunedau, wedi cefnogi datblygu yn ogystal ag atgyfnerthu darpariaeth. Fe wnaeth hefyd alluogi cynaliadwyedd staff, fel bod hyfforddiant a gwybodaeth yn cael ei gynyddu a’i ddatblygu. Mae’r mwyafrif o ADCh yn nodi’r effaith gadarnhaol y mae’r gronfa hon yn ei gael ar y gallu i weithio’n fwy strategol a chynaliadwy. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol wedi defnyddio nifer o raglenni eraill Llywodraeth Cymru i gyfoethogi cyfleoedd i chwarae ymhellach. Mae enghreifftiau’n cynnwys:

- **Deddf Teithio Llesol** – galluogi llwybrau diogel i fannau chwarae, yn enwedig ar gyfer plant mewn ardaloedd gyda dewisiadau cludiant cyfyngedig.
- **Cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRIC)** – creu llwybrau cerdded a seiclo mwy diogel i fannau chwarae, gan gyfoethogi hygyrchedd a diogelwch.
- **Strategaeth Ddwyieithrwydd** – ehangu gwasanaethau chwarae cyfrwng Cymraeg.

Cyfeirir hefyd at y ffaith bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) yn cyfrannu at gyfleoedd i chwarae ar draws nifer o ADCh awdurdodau lleol. Tra ei bod yn anodd mesur cydweithredu ar y dyraniad ar draws rhai ardaloedd, ceir enghreifftiau da o agwedd strategol mewn ambell ardal.

Mae ffynonellau ariannu eraill a ddynodwyd yn cynnwys:

- Ariannu diogelwch cymunedol oddi wrth gomisiynwyr yr heddlu a throseddu
- Cyfraniadau gan Gynghorau Tref a Chymuned
- Y Gronfa Ffyniant Bro
- Timau Iechyd y Cyhoedd
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae llawer o'r ADCh yn trafod buddsoddi mewn ardaloedd chwarae. Mae llawer yn cael eu hariannu y tu allan i ddyraniadau ariannu polisi chwarae ac yn cael eu cyllido fel rhan o gyllideb graidd awdurdodau lleol neu trwy grantiau datblygu trefi a dinasoedd. Mae cynnwys cyllid cyfalaf yng nghyllideb 2025-26 Llywodraeth Cymru i wella chwarae'r tu allan yn cael ei nodi ar draws Gynlluniau Gweithredu Chwarae. Mae'n adnodd derbyniol sy'n cael ei ddefnyddio i gyfoethogi cyfleusterau, yn enwedig trwy gynorthwyo awdurdodau lleol i ystyried materion hygyrchedd.

## Ymgynghoriad, cyfranogiad ac ymgysylltiad gyda phlant

Mae'n ymddangos bod ymrwymiad parhaus i sicrhau y glynir at egwyddorion sylfaenol ymgynghoriad, cyfranogiad ac ymgysylltiad. Mae pob asesiad yn dynodi rhyw lefel o ymgysylltu gyda phlant a rhieni. Mae'r Crynodeb Gweithredol ADCh diwygiedig wedi galluogi awdurdodau lleol i grynhoi'r hyn maent wedi ei ddysgu oddi wrth blant am eu profiadau byw personol.

Ceir Holiadur Bodlonrwydd Chwarae safonol ar gyfer plant yn *Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: pecyn cymorth asesu*. Tra bo'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r holiadur ar ei ffurf safonol, mae eraill wedi ei addasu neu ddatblygu eu fersiwn eu hunain. Tra bo rhaid i bob awdurdod lleol gwblhau'r ADCh mewn modd sy'n ateb ei sefyllfa a'i anghenion lleol orau, mae'r defnydd o holiaduron ansafonol yn golygu nad yw cyfleoedd i ystyried darlun Cymru-gyfan o sylwadau plant am ddigonolrwydd chwarae yn bosibl.

Trwy'r holiadur, mae plant yn dweud wrthym yr hyn sy'n dda am y cyfleoedd chwarae yn eu hardal leol ac yn dweud wrthym pa mor fodlon maen nhw ynghylch pryd, sut a ble y gallant chwarae. Mae Chwarae Cymru wedi dadansoddi'r holiaduron a gwblhawyd gan bron i 8,000 o blant ar draws 16 o ardaloedd awdurdodau lleol fel rhan o'u ADCh yn 2025. Cyhoeddwyd ein hadroddiad, *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025*, ym mis Hydref 2025.

Yn ogystal â holiaduron ar bapur neu dros y we, mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu agwedd fwy ansoddol tuag at gasglu sylwadau plant, yn benodol trwy grwpiau ffocws gyda phlant sy'n wynebu anfanteision penodol a rhwystrau strwythurol i chwarae. Ceir enghreifftiau da o waith digonolrwydd chwarae mewn cymdogaethau. Fodd bynnag, bu hyn yn bosibl, ar y cyfan, gyda chymorth allanol gan dimau datblygu chwarae hirsefydlog sy'n bodoli eisoes.

Mae nifer o gynlluniau gweithredu'n crybwyll yr ymrwymiad i gynnal ymgynghoriadau dyfnach gyda phlant a chymunedau. Mae hyn ar ffurf ymchwil weithredu ar lefel cymdogaeth neu gyda grwpiau ffocws o blant. Mae'r ymrwymiad hwn yn fwy cyffredin ble ceir capasiti datblygu chwarae un ai o fewn awdurdod lleol neu sefydliad partner.

# 5. Y Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Fel mewn Asesiadau Digonolrwydd Chwarae blaenorol, mae eu cynnwys yn adlewyrchu'r isadeiledd, y capasiti a'r wybodaeth digonolrwydd chwarae yn lleol. Mewn nifer o achosion, adroddir am griteria penodol mewn mwy o fanylder. Mae hyn yn debyg o adlewyrchu cynllun gwaith neu wybodaeth y swyddog sy'n cwblhau'r asesiad cyflawn.

Ers yr ADCh cyntaf, mae awdurdodau lleol wedi defnyddio dull statws Coch, Melyn, Gwyrdd (RAG) i gyfleu statws yn gyflym ac effeithlon.

| |
|---|
| Gwyrdd – wedi ei gyflawni'n llawn |
| Melyn – wedi ei gyflawni'n rhannol |
| Coch – heb ei gyflawni |

Mae dull statws RAG yr ADCh yn hunanasesiad y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol yn unig i asesu criteria yn seiliedig ar allu staff, polisïau lleol, gweithio partneriaeth, adnoddau ariannol ac ymrwymiad i chwarae'n lleol. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel mesur cymharol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae'n ymddangos bod y ffurflen ADCh ar ei newydd wedd wedi arwain at agwedd fwy cydweithredol ac ystyriol yn y mwyafrif o ardaloedd awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae ambell ADCh ble mae'n ymddangos bod adrannau o'r ADCh wedi'u cwblhau gan adrannau o'r awdurdod ar wahân i'w gilydd. Er nad yw hyn yn newydd, mae hyn yn arwain at weld rhai o'r criteria'n cael eu camddeall neu heb eu cwblhau.

Mae amrywiaeth yn parhau o ran defnydd o'r ffurflen ADCh – mae hyn yn ddealladwy gan ei bod yn ymwneud â materion llosg a chapasiti lleol. Mae'r adolygiad hwn wedi tanlinellu'r materion hyn:

- Mae lefel y manylion ar gyfer pob un o'r criteria yn amrywio ar draws yr holl ADCh.
- O ganlyniad i ddiffyg capasiti, mae nifer o'r adrannau'n cael eu rhannu gyda chydweithwyr o fewn yr awdurdod lleol i'w cwblhau. Mae hyn yn arwain at weld rhai o'r criteria'n cael eu camddeall neu heb eu cyflawni.
- Gwelir defnydd anghyson o'r statws RAG.
- Ble fo adrannau wedi'u cwblhau ar wahân, mae'n ymddangos bod y dadansoddiad yn oddrychol yn hytrach na'n asesiad corfforaethol cytûn.

# 6. Crynodeb

Mae'r dadansoddiad o'r ADCh yn dynodi bod y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn parhau i weithredu fel symbyliad cenedlaethol ar gyfer cynllunio darpariaeth chwarae'n lleol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi gwneud defnydd da o'r gallu i gwrdd wyneb yn wyneb wedi mesurau cyfnodau clo COVID-19 i gynnal gweithdai digonolrwydd chwarae. Yn y mwyafrif o achosion, cafodd y rhain eu cefnogi a'u hwyluso gan Chwarae Cymru.

Fe wnaeth y digwyddiadau hyn ailgynnau diddordeb mewn chwarae ac, i nifer o ardaloedd, rhoddodd y rhain gyfle i swyddogion newydd ar draws y rhan fwyaf o feysydd polisi i ystyried sut mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd i chwarae. Mae nifer o ADCh yn dangos tystiolaeth barhaus o fuddiannau gweithio trawsadrannol er mwyn cyfrannu at sicrhau digonolrwydd chwarae.

Er gwaethaf heriau'r blynyddoedd diwethaf, mae pob ADCh yn arddangos ymrwymiad i sicrhau newid cadarnhaol, gyda chydnabyddiaeth bod angen cofio ystyried capasiti ac adnoddau sy'n bodoli eisoes. Mae'n sicr bod cefnogaeth ac amrywiol becynnau cyllid Llywodraeth Cymru yn dal i arwain at weithgarwch a diddordeb cynyddol i sicrhau cyfleoedd chwarae ledled Cymru.

# 7. Argymhellion

Mae'r adran hon yn amlinellu argymhellion i Lywodraeth Cymru a Chwarae Cymru eu hystyried. Mae'r argymhellion hyn wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae, Crynodebau Gweithredol a Chynlluniau Gweithredu Chwarae. Yn ogystal, mae cyfarfodydd y Rhwydwaith Digonolrwydd Chwarae, a gweithdai ac ymgysylltu ar lefel awdurdod lleol wedi hysbysu'r argymhellion.

**Parhau i dynnu sylw at chwarae, datblygu chwarae ac ariannu digonolrwydd chwarae mewn meysydd polisi priodol eraill.**

**Ystyried adolygu cyfarwyddyd y Grant Plant a Chymunedau a ffrydiau ariannu eraill i gynnwys digonolrwydd chwarae ac ariannu ar gyfer datblygu chwarae mewn perthynas â sicrhau digonolrwydd chwarae.**

**Dynodi a hyrwyddo rhaglenni ariannu Llywodraeth Cymru y gellid eu defnyddio ar gyfer camau gweithredu digonolrwydd chwarae.**

**Ailymweld â'r ffurflen ADCh i ystyried os oes angen cyfarwyddyd ynghylch ei chwblhau a'i dadansoddi.**

**Cefnogi'r Rhwydwaith Digonolrwydd Chwarae ymhellach i weithredu fel cymuned ymarfer.**

**Cyflawni gwaith ffocws penodol gyda'r Rhwydwaith Digonolrwydd Chwarae i:**

- **ddynodi ffyrdd i rannu syniadau a phrosiectau**
- **ailymweld â'r templedi a'r ffurflenni Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i ystyried os oes angen cyfarwyddyd ynghylch eu cwblhau a'u dadansoddi**
- **ystyried effeithlonrwydd a'r defnydd o'r adnoddau sy'n rhan o *Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: pecyn cymorth asesu*.**

**Ystyried ffyrdd i hyrwyddo syniadau arfer da i awdurdodau lleol gynnal ymchwil hyperleol gyda phlant am waith digonolrwydd chwarae mewn cymdogaethau.**

**Archwilio ffyrdd i ystyried mynediad i chwarae yn adran Cartrefi a Lleoedd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.**

**Parhau i gasglu a chyhoeddi tystiolaeth Cerdyn Adroddiad Digonolrwydd Chwarae, ar wefan Chwarae Cymru, er mwyn tanlinellu camau gweithredu digonolrwydd chwarae, yn benodol o ran ymarfer gwrth-hiliol ac ymarfer cynhwysol, ymyriadau mewn cymdogaethau a gwaith mewn ysgolion.**

**Chwarae Cymru i ymgysylltu gydag Un Llais Cymru i gynyddu proffil digonolrwydd chwarae gyda Chynghorau Tref a Chymuned.**

# Atodiad 1: Dadansoddiad SWOT o’r themâu digonolrwydd chwarae

Mae’r adran hon yn dynodi cryfderau a gwendidau cyffredin trwy ddadansoddiad cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) ar draws yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) fel rhan o’r adolygiad. Ar gyfer y broses ADCh hon, mae’r awdurdodau lleol hefyd wedi cwblhau dadansoddiad SWOT, wedi ei hysbysu’n rhannol gan yr hyn ddywedodd y plant wrthynt trwy ymgynghori ac ymgysylltu.

| Thema mannau i chwarae | | | |
|---|---|---|---|
| **Cryfder** | **Gwendid** | **Cyfle** | **Bygythiad** |
| Mae rhai ADCh yn cyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG)<br><br>Rhaglen cyllid cyfalaf penodedig i wella cyfleusterau a materion sy’n ymwneud â mynediad<br><br>Ceir polisïau cyflenwol sy’n gwarchod a gwella mannau agored<br><br>Enghreifftiau da o ddarpariaeth ar gyfer chwarae’r tu allan y gellir eu datblygu<br><br>Rhaglen gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi chwarae’r tu allan<br><br>Mae cynghorau tref a chymuned yn gefnogol mewn rhai ardaloedd | Cwtogi cyllidebau cynnal a chadw<br><br>Adnoddau cyfyngedig yn gyffredinol<br><br>Sgiliau cyfyngedig staff<br><br>Mae rhai Asesiadau Mannau Agored yn hen<br><br>Mae rhywfaint o ddryswch o ran y termau a ddefnyddir yn y criteria sy’n golygu bod dehongliadau’n amrywio<br><br>Mae rhai ardaloedd yn rhy ddibynnol ar bartneriaethau gweithredol gyda grwpiau cymunedol a Chynghorau Tref a Chymuned<br><br>Nid yw teuluoedd a phlant yn adnabod mannau agored y gellir eu defnyddio ar gyfer chwarae | Cynlluniau Datblygu Lleol newydd ar draws pob ardal<br><br>Polisïau creu lleoedd<br><br>Ymrwymiad i gynnal archwiliadau mynediad<br><br>Ymrwymiad i gynnal asesiadau gwerth chwarae<br><br>Hyrwyddo gwerth mannau agored anffurfiol yn well (sy’n cysylltu gyda Mater Dd)<br><br>Cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd chwarae’r tu allan<br><br>Mynd i’r afael â chamddealltwriaeth ynghylch darpariaeth chwarae stryd, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer dda o ardaloedd eraill<br><br>Mae’r terfyn cyflymder diofyn o 20 m.y.a. yn cefnogi trafodaethau ac yn helpu i ateb pryderon ynghylch diogelwch ffyrdd yn y mwyafrif o ardaloedd | Mae ardaloedd chwarae dynodedig yn dibynnu ar gyllido<br><br>Mae newid cyfeiriad meddyliau ynghylch newid dyluniad a darpariaeth yn heriol<br><br>Mae swyddogion chwarae’n ei chael yn anodd ymgysylltu’n llawn gyda materion sy’n ymwneud â pholisi cynllunio, lleoliad a dyluniad mannau chwarae<br><br>Mae pwysau ariannol ar gyllidebau cynnal a chadw yn effeithio hefyd ar lefel ac ansawdd darpariaeth – a diwedd y gân yw diogelwch yn hytrach nac ansawdd<br><br>Mae rhieni’n pryderu ynghylch diogelwch, sy’n cyfyngu ar allu plant i wneud y gorau o chwarae yn eu cymdogaethau |

## Thema poblogaeth

| Cryfder | Gwendid | Cyfle | Bygythiad |
|---|---|---|---|
| Gwelliant parhaus yn y ffordd y cesglir data a'i ddefnyddio<br><br>Gwell dealltwriaeth o'r ystod o ddata sydd ar gael<br><br>Mae rhannu data rhwng swyddogion a sefydliadau yn dangos gwelliant<br><br>Mwy o'r wybodaeth ddiweddaraf trwy gyfrifiad 2021<br><br>Darpariaeth gynyddol ar gyfer grwpiau penodol<br><br>Gweithio partneriaeth pan mae cyllid ar gael<br><br>Enghreifftiau da o wasanaethau cynhwysol sydd wedi'u staffio<br><br>Adrodd cynhwysfawr ar blant gydag anghenion amrywiol<br><br>Ble y ceir capasiti, rhennir syniadau chwarae rhad ar gyfer y cartref drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac mewn lleoliadau<br><br>Ymwybyddiaeth gynyddol ynghylch anghenion chwarae plant hŷn ac arddegwyr | Gwybodaeth gyfyngedig yn parhau ynghylch rhai grwpiau o blant<br><br>Diffygion parhaus ar gyfer rhai grwpiau, fel plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, plant hŷn a darpariaeth Gymraeg<br><br>Mae gwasanaethau arbenigol yn dueddol o gael eu lleoli mewn ardaloedd mwy poblog<br><br>Gall darparu ar gyfer amrywiaeth fod yn fater cymhleth ac nid yw'n fater o 'un ateb sy'n addas i bawb' | Datblygu protocolau ar gyfer rhannu data<br><br>Datblygu dulliau partneriaeth tuag at gasglu a dadansoddi data<br><br>Defnyddio sgiliau arbenigwyr lleol<br><br>Ehangu ar weithio partneriaeth da a gefnogir gan raglenni a pholisi Llywodraeth Cymru<br><br>Prosiectau urddas mislif yn cefnogi merched i gymryd mwy o ran mewn darpariaeth wedi'i staffio | Adnoddau cyfyngedig ar gyfer defnyddio data ac i gynllunio'n effeithlon<br><br>Nifer cynyddol o blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<br><br>Mae teuluoedd yn chwilio am ddarpariaeth unigolaidd, nid yw hyn yn ymarferol bob tro<br><br>Mae gwasanaethau arbenigol yn anodd eu dylunio, eu hariannu a'u cynnal<br><br>Cystadlu am gyllid, sy'n gyfyngedig<br><br>Gall cyllid wedi'i dargedu achosi i rai grwpiau deimlo eu bod wedi ymddieithrio a'u tan wasanaethu<br><br>Prinder staff a chyllid i gefnogi cynnwys plant gydag anghenion cymhleth<br><br>Mae argaeledd darpariaeth am ddim yn dibynnu ar gyllid grant/gyllid parhaus<br><br>Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar allu plant i gael mynediad i rai cyfleoedd, yn enwedig rai sy'n codi tâl, neu ble fo angen offer i gymryd rhan |

## Thema darpariaeth dan oruchwyliaeth

| Cryfder | Gwendid | Cyfle | Bygythiad |
|---|---|---|---|
| Amrywiaeth o gyfranogiad partneriaid, yn enwedig mewn darpariaeth ar gyfer gweithgareddau hamdden<br><br>Defnydd da o gyllid Llywodraeth Cymru<br><br>Pwysleisiwyd pwysigrwydd darpariaeth gwaith chwarae drwy raglenni a arianwyd, megis Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles<br><br>Mae cymwysterau gwaith chwarae a ariennir ar gael<br><br>Mae gwaith chwarae wedi ei gynnwys mewn ambell Gynllun Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant<br><br>Defnydd da o gyllid Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae ar draws y mwyafrif o ardaloedd<br><br>Ceir enghreifftiau o weithwyr gofal plant, chwaraeon ac ieuenctid yn cael eu hyfforddi mewn gwaith chwarae<br><br>Mae nifer o ardaloedd yn gwneud defnydd da o'r amrywiol gyfleoedd DPP gwaith chwarae sydd ar gael | Asesu ansawdd mewn lleoliadau gwaith chwarae<br><br>Gall fod yn heriol i ddarpariaeth gyrraedd plant sy'n wynebu anfantais strwythurol<br><br>Pryderon ynghylch gallu Dewis Cymru i gyrraedd rhieni gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth<br><br>Camddealltwriaeth ynghylch lefel y cymwysterau sydd eu hangen mewn lleoliadau gwaith chwarae wedi'u staffio<br><br>Mae rhywfaint o gyfyngiadau i beth o'r hyfforddiant sydd ar gael | Bydd cynllun sicrhau ansawdd (Chwarae o Safon) ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae, a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru a'u partneriaid, ar gael yn fuan<br><br>Mae cynnydd mewn seilwaith ar gyfer trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae<br><br>Cynnal archwiliadau o'r gweithlu<br><br>Cynnwys gwaith chwarae mewn cynlluniau datblygu'r gweithlu<br><br>Gwneud defnydd gwell o'r diffiniadau o chwarae a hamdden a nodir yn y cyfarwyddyd statudol diwygiedig (a Sylw Cyffredinol rhif 17)<br><br>Dynodi enghreifftiau da o ble mae timau datblygu chwarae neu sefydliadau'n cyfrannu at drosglwyddo'r rhaglen Bwyd a Hwyl | Mae darpariaeth dan oruchwyliaeth yn dibynnu'n helaeth ar gyllido parhaus<br><br>Disgwyliadau a galw cynyddol am wasanaethau<br><br>Mae materion recriwtio a chadw staff yn dal i fod yn broblem fawr |

## Thema polisi, synergedd ac eiriolaeth

| Cryfder | Gwendid | Cyfle | Bygythiad |
|---|---|---|---|
| Gall ADCh enwi aelod a swyddog arweiniol dros chwarae<br><br>Mae llawer yn cyfeirio at sut all yr ADCh hysbysu'r Cynlluniau Llesiant, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a grwpiau strategol eraill<br><br>Mae ymchwil i chwarae wedi dangos y cysylltiadau rhwng chwarae a lles<br><br>Mae proffil pwysigrwydd chwarae wedi ei gynyddu<br><br>Cydnabyddiaeth o'r angen i gydweithio a sefydlu grwpiau monitro digonolrwydd chwarae<br><br>Cynnydd mewn gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau eraill i gefnogi hyrwyddo chwarae<br><br>Enghreifftiau da o ymgysylltu anffurfiol gyda chymunedau drwy waith allgymorth a diwrnodau chwarae i deuluoedd<br><br>Enghreifftiau da o ymgysylltiad cymunedol yn ymddangos | Mae pryderon ynghylch 'syrffed ar ymgynghoriadau' wedi cyfyngu ar rywfaint o waith cynnal arolygon<br><br>Mae grwpiau monitro chwarae yn anodd eu cynnal<br><br>Mae swyddogion oedd yn deall a chefnogi digonolrwydd chwarae wedi gadael dros amser – mae capasiti a gwybodaeth wedi'u colli mewn rhai meysydd polisi<br><br>Mae swyddogion ar draws pob maes polisi wedi eu gorlwytho<br><br>Mae ambell adran o'r templed yn cael eu cwblhau ar wahân, sy'n arwain at gamddeall rhai o'r criteria | Gweithio mewn partneriaeth gyda Chwarae Cymru, i drosglwyddo gweithdai Deall Digonolrwydd Chwarae a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru<br><br>Datblygu a throsglwyddo gweithdai neu seminarau byr ar gyfer adrannau eraill o'r cyngor<br><br>Datblygu strategaeth eglur ar gyfer ymgysylltu gyda phlant, rhieni a chymunedau gan ddefnyddio enghreifftiau o ymarfer<br><br>Cynnal adolygiad ar ddefnydd o ddulliau ac adnoddau ymgysylltu a rhannu arfer da drwy'r Rhwydwaith Digonolrwydd Chwarae<br><br>Gweithio gyda phartneriaid, fel Cynghorau Tref a Chymuned a chymdeithasau tai, er mwyn eu uwchsgilio<br><br>Enghreifftiau da o weithio rhanbarthol<br><br>Dynodi a chydweithio gyda sefydliadau trydydd sector i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu<br><br>Ymgysylltu gydag aelodau etholedig lleol i gynyddu proffil chwarae | Gall ymgynghori gael ei ystyried fel ymarfer un-tro sydd ddim yn arwain at welliannau neu newidiadau<br><br>Mae capasiti cyfyngedig a sgiliau i gynnal gweithgareddau ymgysylltu'n amrywio<br><br>Bygythiadau i gyllid a chefnogaeth os na chaiff chwarae ei werthfawrogi ar draws ardal yr awdurdod lleol, yn enwedig yn ystod adegau o ailstrwythuro |

# Atodiad 2: Cysylltiadau gyda Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, yn anelu i sicrhau gwahaniaeth mesuradwy ym mywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Wedi ei ddatblygu mewn cydweithrediad â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, mae'n cynnwys un ar ddeg o nodau a chamau gweithredu ar gyfer y sector gofal plant a gwaith chwarae. Mae'r camau gweithredu hyn, a amlinellir ym Mhennod Gofal Plant a Chwarae y cynllun, yn canolbwyntio ar wella'r profiad yn y gweithle, gan gynnig darpariaeth sy'n fwy priodol yn ddiwylliannol ac yn allweddol iawn, wella profiad plant.

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith ar gamau gweithredu sy'n berthynol i'r adran hon, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal Grŵp Llywodraethiant Gofal Plant a Gwaith Chwarae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac amrywiol is-grwpiau. Yn eu dogfen Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024, mae Llywodraeth Cymru'n adrodd ar gyflawniadau'r amrywiol grwpiau:

- Lansio adnoddau dysgu gwrth-hiliol cyntaf Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar a phecyn cymorth *Creu Diwylliant Gwrth-hiliol mewn Lleoliadau.*
- Er mwyn ategu hyn, mae Map Tiwb wedi ei ddatblygu hefyd i gyfannu'r pecyn cymorth er mwyn helpu unigolion ar bob lefel i ddynodi adnoddau a hyfforddiant priodol.
- Gyda chefnogaeth gan Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL), mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cydweithio i ddatblygu llythrennedd o ran hil ymhlith arolygwyr.
- Mae arweinwyr AGC wedi ffurfio grŵp hyrwyddwyr gwrth-hiliol ac maent wedi ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Ffocws parhaus yr amrywiol grwpiau yw:

- Hyrwyddiad parhaus arweinyddiaeth wrth-hiliol
- Gwella casglu data ar nodweddion gwarchodedig
- Cefnogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gael mynediad i wasanaethau
- Parhau i ddatblygu adnoddau ymarferol a darparu dysg proffesiynol parhaus ar gyfer mynd i'r afael â hiliaeth mewn lleoliadau chwarae a gofal plant.

## Asesu Digonolrwydd Chwarae a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Dylai'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADCh) gwmpasu i ba raddau y mae cyfleoedd i chwarae'n cael eu deall, eu hannog ac yn briodol i ofynion plant o gymunedau a diwylliannau amrywiol. Mae canllawiau statudol *Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae*, yn rhestru naw o Faterion y mae angen i awdurdodau lleol eu hystyried. Mae dau Fater penodol yn ymwneud ag ymarfer gwrth-hiliol:

- **Mater B – Diwallu anghenion amrywiol:** mae hwn yn cyfarwyddo awdurdodau lleol a'u partneriaid i anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog pob plentyn i chwarae a chymdeithasu.
- **Mater F – Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys:** mae hwn yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i ymgynghori'n eang ar farn plant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill ar ddarpariaeth chwarae a hamdden. Dylai awdurdodau lleol wneud ymdrech i ymgysylltu â grwpiau y gwyddom eu bod yn llai tebygol o allu ymgysylltu heb gymorth wedi'i deilwra. Gall hyn gynnwys y canlynol, ond nid yw'r rhestr yn gyflawn:
    - plant o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
    - plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae *Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: pecyn cymorth asesu* yn cynnwys adnoddau a thempledi amrywiol i gynorthwyo awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys Arolwg Bodlonrwydd Chwarae y gellir ei ddefnyddio ar lefel leol, ynghyd â chanllawiau pellach ynghylch ymgynghori ar chwarae.

## Adolygiad 2025 o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – cyflawniadau

Cydnabyddir bod cyflawni a darparu ar gyfer anghenion chwarae plant o gymunedau a diwylliannau amrywiol yn bwysig ym mhob Asesiad Digonolrwydd Chwarae. Ceir agwedd gyffredin tuag at gynhwysiant ac amrywiaeth ar draws pob ardal, ac mae hyn amlycaf wrth adrodd am y thema Darpariaeth dan oruchwyliaeth. Mae'n ymddangos bod y mwyafrif o'r gweithgarwch cadarnhaol i'w weld mewn camau gweithredu adnabyddadwy i fynd i'r afael â'r diffygion hyn. Mae enghreifftiau o weithgarwch datblygol yn cynnwys:

- creu fforymau cydraddoldebau lleol, neu debyg
- creu fforymau cynghori ieuenctid
- gweithgarwch cyfathrebu sy'n glir a hawdd i gymunedau ei ddeall
- hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gyfer staff
- gweithgarwch ymgysylltu â ffocws gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- defnyddio gwasanaethau cyfieithu ble fo angen
- cwblhau hyfforddiant DARPL
- cyfieithu dogfennau a gwybodaeth allweddol i amrywiaeth o wahanol ieithoedd.

## Adolygiad 2025 o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – heriau

Mai rhai ADCh yn adrodd am niferoedd bychain o grwpiau ethnig penodol yn byw yn yr ardal. Mae nifer yn nodi'r heriau y mae teuluoedd yn eu hwynebu o ran gwybod beth sydd ar gael yn y gymuned. Pan gafwyd ymgysylltiad, dynodwyd bod iaith yn rhwystr allweddol i gyfranogi. Er nad yw awdurdodau lleol yn dynodi galw penodol am gyfleoedd i chwarae sy'n ddiwylliannol benodol, mae angen cryfhau cysylltiadau er mwyn cynyddu sgiliau a gwybodaeth staff ac i sicrhau bod teuluoedd yn gwybod beth sydd ar gael a sut y gallant ymgysylltu.

## Casgliad

Dynododd canfyddiadau adroddiad *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025* anghydraddoldebau mewn chwarae mewn cymdogaethau oedd yn ymwneud ag ethnigrwydd. Adroddodd plant o gefndiroedd ethnig leiafrifol am lefelau is o fodlonrwydd gyda chyfleoedd i chwarae. Mae ffactorau'n cynnwys llai o ffrindiau i chwarae gyda nhw a theimlo'n llai diogel neu fod llai o groeso iddynt yn eu cymunedau. Mae'r patrymau hyn yn adlewyrchu anghydraddoldebau cymdeithasol ehangach ac yn tanlinellu pwysigrwydd mynd i'r afael â chynhwysiant a pherthyn fel rhan o gynllunio digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Trwy ein cysylltiad gyda Grŵp Llywodraethiant Gofal Plant a Gwaith Chwarae ArWAP, mae Chwarae Cymru wedi ymgysylltu gyda mentoriaid cymunedol sy'n ymwneud ag ArWAP, er mwyn ceisio arweiniad ynghylch sut i fynd ati'n effeithlon i geisio sylwadau gan blant a theuluoedd ethnig leiafrifol. Rydym yn gobeithio parhau â'r gwaith hwn er mwyn datblygu technegau a syniadau grwpiau ffocws i sicrhau eu bod yn ddiwylliannol briodol.

Bydd Chwarae Cymru'n dal i ymgysylltu gydag ArWAP ac yn anelu i gynyddu proffil cynnwys cyfleoedd i chwarae ym mhennod Cartrefi a lleoedd y cynllun. Mae Chwarae Cymru wedi adolygu a diweddaru'r pecyn cymorth *Datblygu darpariaeth chwarae a blynyddoedd cynnar mewn safleoedd Sipsiwn a Theithwyr*. Byddwn yn clustnodi ffyrdd i rannu'r pecyn cymorth gyda rhanddeiliaid allweddol sy'n datblygu darpariaeth a chyfleoedd i chwarae.

# Atodiad 3: Chwarae mewn addysg ac ysgolion

Mae tystiolaeth empirig ryngwladol yn awgrymu bod mentrau amser chwarae mewn ysgolion, sydd wedi eu hanelu at gyfoethogi cyfleoedd chwarae, yn gysylltiedig ag ystod eang o welliannau mewn sgiliau academaidd, agwedd, talu sylw ac ymddygiad, a gyda gwelliant mewn sgiliau cymdeithasol, perthnasau cymdeithasol gwell rhwng gwahanol grwpiau o blant, ac ymgynefino'n well a gwell mwynhad o fywyd ysgol.

Ym mis Mai 2024, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru arolwg Materion Misol gydag athrawon a phlant ynghylch amser chwarae ac egwyl yn yr ysgol. Yn adroddiad *Amser Egwyl/Chwarae – Arolwg Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru*, mae'r rhwystrau a restrwyd gan athrawon wrth ddarparu amserau chwarae i blant yn cynnwys diffyg adnoddau ac amser, a phwysau'n gysylltiedig â chyflwyno'r cwricwlwm. Nododd yr arolwg bod y plant hefyd eisiau mwy o amser ac offer pan ofynnwyd iddynt ynghylch gwneud amser chwarae'n well.

Ystyriodd Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yr ystod amrywiol o fentrau polisi a chyflenwi cenedlaethol sy'n cefnogi plant i gael mynediad i'w hawl i chwarae ar draws lleoliadau addysgol. Pwysleisiodd y trafodaethau'r angen i sicrhau bod chwarae'n cael ei werthfawrogi yn y lleoliadau hyn, nid yn unig ar gyfer deilliannau addysgol cyfryngol, ond hefyd ar gyfer y buddiannau uniongyrchol i les y mae'n ei gynnig i blant o bob oed.

Cyflwynodd *Adroddiad Terfynol Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae* ddau argymhelliad allweddol sy'n gysylltiedig â chwarae mewn ysgolion, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac y cytunwyd ar gamau gweithredu mewn ymateb iddynt.

- **Argymhelliad allweddol 14:** Hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a'r defnydd o diroedd ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae trwy'r polisi ysgolion bro.
- **Argymhelliad allweddol 15:** Cynyddu a gwella amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion.

Mae chwarae'n eistedd yn nifer o bolisïau addysg Llywodraeth Cymru:

- **Ysgolion bro:** mae cynnwys chwarae yn y canllawiau'n cwmpasu tri maes:
    - ymgysylltu gyda rhieni drwy rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd i hyrwyddo buddiannau chwarae ac i annog rhyngweithio teulu/plentyn drwy chwarae
    - ysgolion yn cysylltu gyda sefydliadau chwarae a grwpiau cymunedol i greu cysylltiadau gyda'r hyn sy'n cael ei gynnig eisoes yn y gymuned
    - y potensial i ysgolion ddarparu gofod chwarae y tu allan i'r diwrnod ysgol trwy agor tiroedd ysgol.
- **Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol:** mae'r cyfarwyddyd statudol dull ysgol gyfan yn darparu proses ddiffiniedig i ysgolion ddatblygu a sefydlu eu dulliau ysgol gyfan eu hunain sy'n gyson, yn deg i ddysgwyr a staff, ac na fwriedir iddynt fod yn orfiwrocrataidd, gan yn hytrach gyfateb i brosesau gwella ysgolion sydd eisoes ar waith. Mae a wnelo â thanlinellu'r pethau da y dylai pob un ohonom fod yn eu gwneud fel mater o drefn. Mae *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol* Llywodraeth Cymru yn egluro'n groyw na ddylid gwrthod amser chwarae i blant yn yr ysgol fel math o gosb.

## Asesu Digonolrwydd Chwarae ac ysgolion

Mae *Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae* – canllawiau statudol yn rhestru naw mater sydd angen i awdurdodau lleol eu hystyried. Caiff chwarae a pholisi addysg ei gynnwys ym **Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol**. Fel rhan o'u ADCh, mae rhaid i awdurdodau lleol asesu i ba raddau:

- y darperir amgylchedd chwarae diddorol i blant ar gyfer egwyliau yn ystod y diwrnod ysgol
- y mae plant yn cael egwyliau chwarae yn y bore, amser cinio ac yn y prynhawn
- y mae ysgolion yn darparu cyfleoedd chwarae y tu allan i amser ysgol, gan gynnwys cyn yr ysgol, gyda'r nos, dros y penwythnos ac yn ystod y gwyliau – yn cynnwys mynediad agored i'r ysgol.

## Adolygiad 2025 o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae ac ysgolion – cyflawniadau

Mae pob un o'r ADCh yn rhannu enghreifftiau o arfer dda ble mae ysgolion wedi datblygu cyfleoedd i chwarae drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae rhai'n nodi iddynt gynnal gwaith ymgysylltu gydag ysgolion fel rhan o'r ADCh. Fodd bynnag, mae'r ymgysylltiad cyffredinol yn isel. Mae enghreifftiau penodol o lwyddiant yn cynnwys:

- prosiectau ysgolion cyfeillgar i chwarae (neu debyg) a gyflwynwyd gan dimau datblygu chwarae
- timau datblygu chwarae'n hwyluso sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer staff
- tîm chwarae'r awdurdod lleol, ac mewn rhai achosion, dimau chwarae sector gwirfoddol yn hwyluso amserau chwarae
- tîm chwarae'r awdurdod lleol yn hwyluso sesiynau 'chwareus' sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cwricwlwm
- sesiynau chwarae ar ôl ysgol yn cael eu trosglwyddo fel rhan o gynllun Ysgolion Bro
- datblygu polisïau chwarae mewn ysgolion.

## Adolygiad 2025 o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae ac ysgolion – heriau

Yr her fwyaf sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth asesu cyfleoedd i chwarae mewn ysgolion a rhoi camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â diffygion yw nad oes dull safonedig na strategaeth chwarae mewn ysgolion ym mhob awdurdod lleol. Mae unrhyw lwyddiannau'n amrywiol – mae ymatebion wedi eu lleoli mewn ysgolion, mewn nifer o achosion, yn dibynnu ar unigolyn penodol yng nghymuned yr ysgol.

## Casgliad

Fel y mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae'n nodi, bydd plentyn yn treulio mwy na chwe awr y dydd a 38 wythnos o'r flwyddyn yn yr ysgol, am o leiaf 12 mlynedd o'i oes, felly bydd plant yn cael amser sylweddol i chwarae yn y lleoliad hwn. Mae plant yn dweud bod amserau chwarae'n rhan bwysig o'u diwrnod ysgol. Yn Arolwg Omnibws Plant Cymru (2022):

- dywedodd 98% o'r plant a holwyd eu bod yn edrych ymlaen at amser chwarae/egwyl yn yr ysgol
- mae 82% yn hoffi amser chwarae/egwyl gan y gallant dreulio amser gyda'u ffrindiau.

Er hyn, mae'r adolygiad hwn o ADCh 2025 yn awgrymu, ar draws awdurdodau lleol, bod amser chwarae mewn ysgolion yn mynd yn llai, er gwaethaf ymdrechion yn lleol i fynd i'r afael â hyn. Ceir pryderon ynghylch gostyngiad mewn cyfleoedd i chwarae, yn enwedig ar gyfer grwpiau bregus, er enghraifft plant anabl a phlant niwrowahanol a rhai sy'n byw mewn tlodi.

# Atodiad 4: Chwarae a chynllunio cymdogaethau

Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn cynnwys thema cyfiawnder gofodol. Yng nghyd-destun yr adolygiad, roedd cyfiawnder gofodol yn ymwneud â dwy ffactor:

- Mynediad teg a chyfiawn plant i'r hyn sydd gan ofod cyhoeddus i'w gynnig.
- Cyfranogaeth plant yn yr hyn sydd gan ofod cyhoeddus i'w gynnig.

Mae'r ffocws yma ar ofod cyhoeddus yn gyffredinol, ac yn enwedig gymdogaethau. Felly, mae cyfiawnder gofodol yn ymwneud â 'rhyddid bob dydd' plant, term a ddefnyddir i gyfeirio at allu plant i symud yn ddidrafferth o amgylch eu cymdogaethau a hefyd at yr hyn y mae gofod cyhoeddus mewn cymdogaethau'n ei gynnig i blant o ran chwarae neu gwrdd â'u ffrindiau.

Trafododd Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae ystod o rwystrau cyfoes cyfarwydd sy'n atal ac sydd ddim yn cefnogi chwarae plant. Mae nifer o ffactorau sydd wedi lleihau'r cyfle i blant wireddu eu hawl i chwarae, er enghraifft:

- newidiadau mewn cymdogaethau, yn cynnwys defnydd cynyddol ceir, cynnydd mewn traffig (yn symud ac wedi parcio), patrymau gweithio newidiol
- cyfyngiadau gan rieni oherwydd canfyddiadau ynghylch diogelwch cymdogaethau (traffig, bwlio, hiliaeth, perygl dieithriaid)
- cynnydd mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig a galwadau addysgol cynyddol
- plant yn cael eu hystyried fel bod 'allan o le' mewn mannau cyhoeddus, anoddefgarwch cynyddol tuag at blant a phobl ifanc yn chwarae a chwrdd â'i gilydd.

Cyflwynodd y grŵp llywio argymhellion allweddol wrth ystyried thema cyfiawnder gofodol:

- **Argymhelliad allweddol 8:** Sicrhau bod egwyddor chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol yn cael ei chydnabod a'i deall trwy *Bolisi Cynllunio Cymru*.
- **Argymhelliad allweddol 9:** Sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau plant yn hysbysu'r ffyrdd y caiff cymdogaethau eu cynllunio a'u rheoli.

## Asesu Digonolrwydd Chwarae a chynllunio cymdogaethau

Mae *Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae* – canllawiau statudol yn rhestru naw mater sydd angen i awdurdodau lleol eu hystyried. Mae'n nodi bod Cynllunio Gwlad a Thref yn elfen bwysig wrth ddarparu mannau ble gall plant chwarae. Mae chwarae a pholisi cynllunio yn cael ei gwmpasu ym **Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol**. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i bob ADCh asesu:

- i ba raddau y darperir cyfleoedd i blant chwarae wrth fynd ati i gynllunio'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys tai a defnydd o fannau cyhoeddus a mannau agored
- i ba raddau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion plant o bob oed o ran chwarae yn yr awyr agored.

## Adolygiad 2025 o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a chynllunio cymdogaethau – cyflawniadau

Mae'r adolygiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae wedi dynodi bod y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi galluogi awdurdodau lleol i archwilio a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyfiawnder gofodol i blant. Gwelwyd tystiolaeth bod hyn yn esblygu ers cynnal yr ADCh cyntaf yn 2013. Mae partneriaethau allweddol lleol yn rhai gydag adrannau cynllunio, tai, priffyrdd, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, mannau agored, rheolwyr canol trefi, Cynghorau Tref a Chymuned, yr heddlu a gweithwyr proffesiynol eraill y mae eu gwaith yn ymwneud â dylunio, rheoli a threfnu gofod cyhoeddus.

Mae enghreifftiau llwyddiannus penodol yn cynnwys:

- datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ystyried dyluniad 'mannau chwaraeadwy' a chyfleoedd i chwarae
- cynlluniau dylunio gwell ar gyfer ardaloedd chwarae dynodedig i gynnwys nodweddion chwarae anghyfarwyddol a defnydd mwy priodol o ffiniau a ffensys
- mae integreiddio egwyddorion digonolrwydd chwarae mewn polisïau cynllunio gofodol, seilwaith gwyrdd a mannau agored yn sicrhau bod chwarae plant yn cael ei ystyried fel rhan o strategaethau amgylcheddol a chymunedol ehangach
- cydnabyddiaeth gynyddol i bwysigrwydd mannau bychain, lleol ac anffurfiol sy'n cefnogi plant i chwarae'n 'agos i gartref'
- datblygu partneriaethau gyda chynlluniau Teithio Llesol a Chreu Lleoedd
- datblygu rhaglenni strydoedd chwarae
- meddwl ddwywaith am arwyddion 'dim gemau pêl'
- defnydd da o gyllid o'r Gronfa Teithio Llesol a rhaglen Ffyniant Bro y DU
- rhai enghreifftiau newydd o ymchwil hyperleol gyda phlant mewn cymdogaethau.

## Adolygiad 2025 o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a chynllunio cymdogaethau – heriau

- Gwahaniaethau mewn rheoli darpariaeth. Mewn nifer o awdurdodau lleol mae'r cyfrifoldeb am ardaloedd chwarae dynodedig ar y Cynghorau Tref a Chymuned, neu grwpiau llai. Gall hyn greu anghysondeb yn ansawdd a nifer y gofodau chwarae dynodedig.
- Mae rhai awdurdodau'n adrodd am ostyngiad mewn cyllidebau cynnal a chadw.
- Er y cynigiwyd nifer o gyfleoedd hyfforddiant dylunio a rheoli gan Chwarae Cymru, mae derbyn y cyfleoedd hyn wedi bod yn isel ymysg swyddogion allweddol awdurdodau lleol.
- Mewn rhai ardaloedd, er gwaethaf amrywiol bolisïau cynllunio sy'n hyrwyddo nodweddion chwarae anghyfarwyddol a rhai sy'n seiliedig ar natur, gwelir patrwm diofyn yn aml o offer chwarae sefydlog traddodiadol, gaiff ei yrru gan ddisgwyliadau oedolion a diffyg ymwybyddiaeth am agweddau amgen.
- Mae gweithio partneriaeth yn dibynnu ar sgiliau, gallu a doniau swyddogion awdurdodau lleol sy'n gweithio ar draws ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, teithio llesol a chynllunio lleol.

## Casgliad

Gallai'r synergedd rhwng buddiannau'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a weithredwyd yn llwyddiannus a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gael eu hoptimeiddio, ac fe ddylid eu hoptimeiddio, drwy ganllawiau mwy croyw ar gyfer datblygu cynlluniau llesiant.

Mae'r egwyddor sylfaenol o greu lleoedd trwy lesiant mewn polisïau cynllunio'n cefnogi cyfiawnder gofodol i blant yn gryf iawn, a dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi awdurdodau lleol (a, ble fo'n berthnasol, Gynghorau Tref a Chymuned) i ddod a chynllunwyr a staff digonolrwydd chwarae at ei gilydd. Dylid annog ymwneud â'r egwyddorion a'r canllawiau yn y polisïau hyn, a hynny ar lefel leol a chenedlaethol.

# Atodiad 5: Cynhwysiant plant anabl a phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r dadansoddiad o arolygon chwarae o awdurdodau lleol yn awgrymu bod rhai plant anabl yn adrodd eu bod yn wynebu cael eu hynysu a'u heithrio o ran eu cyfleoedd i chwarae, gyda llawer yn adrodd eu bod yn teimlo'n unig. Gallai hyn fod o ganlyniad i amgylchedd sydd wedi'i ddylunio'n wael, agweddau sy'n ategu gwahaniaethau neu effeithiau anhwylderau ac amhariadau sy'n cyfyngu ar annibyniaeth a chyfranogiad. Pan fyddwn yn dylunio gofodau sy'n cael pethau'n iawn i blant anabl, gall mwy o blant chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, gan ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ystod gyflawn o alluoedd. Mae'r profiadau cynnar hyn yn bwysig ar gyfer siapio goddefgarwch a dealltwriaeth ynghylch gwahaniaethau.

Mae Erthygl 23 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan yn glir bod gan blant anabl hawliau. Mae'r erthygl yn agor gyda'r datganiad y dylai plant anabl:

'fwynhau bywyd llawn a pharchus, mewn amgylchiadau sy'n sicrhau urddas, sy'n hybu annibyniaeth ac sy'n hwyluso cyfranogiad gweithredol y plentyn yn y gymuned'.

Mae'r UK Children's Play Policy Forum a'r UK Play Safety Forum yn argymell y diffiniadau canlynol ar gyfer y termau 'hygyrch' a 'cynhwysol' yng nghyd-destun mannau chwarae, o'u cyd-ddatganiad sefyllfa, *Cynnwys plant anabl mewn darpariaeth chwarae*:

'Mae *Man Chwarae Hygyrch* yn ofod sydd yn rhydd o rwystrau, sy'n caniatáu mynediad i ddefnyddwyr symud o gwmpas y gofod ac mae'n cynnig cyfleoedd cyfranogaeth ar gyfer ystod o wahanol alluoedd. Ni fydd pob plentyn o bob gallu yn medru defnyddio popeth sydd mewn man chwarae hygyrch.'

'Mae *Man Chwarae Cynhwysol* yn cynnig amgylchedd sy'n rhydd o rwystrau, ynghyd â'r isadeiledd ategol, sy'n ateb anghenion chwarae eang ac amrywiol pob plentyn. Bydd plant anabl a phlant sydd ddim yn anabl yn mwynhau lefelau uchel o gyfleoedd cyfranogi, sydd yr un mor gyfoethog o ran gwerth chwarae.'

Ni ddylid defnyddio'r termau hyn yn gyfnewidiol, gan y gall cymhlethdod ynghylch y derminoleg hon gyfrannu at ddiffyg darpariaeth chwarae priodol.

## Asesu Digonolrwydd Chwarae a phlant anabl

Dylai'r ADCh gwmpasu i ba raddau y mae cyfleoedd i chwarae'n cael eu deall, a'u hannog a'u bod yn briodol i ofynion plant o gymunedau a diwylliannau amrywiol.

Mae *Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae* – canllawiau statudol yn rhestru naw Mater sydd angen i awdurdodau lleol eu hystyried, ac mae'r Materion canlynol yn ymwneud ag ymarfer cynhwysol:

- **Mater B – Diwallu anghenion amrywiol:** mae'n cyfarwyddo awdurdodau lleol a'u partneriaid i anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog pob plentyn i chwarae a chymdeithasu. Mae hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau mynediad i bob darpariaeth chwarae a sicrhau y defnyddir mecanwaith tra chyfarwydd, y cytunwyd arno, i ddynodi'r angen am ddarpariaeth ar wahân ar gyfer plant anabl.
- **Mater C – Y lle sydd ar gael i blant chwarae:** mae'n cyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal archwiliadau mynediad o bob gofod chwarae penodedig a gweithredu argymhellion i wella mynediad a diogelwch.
- **Mater Dd – Mynediad i le a gwybodaeth:** mae'n gofyn i awdurdodau lleol adrodd ar weithgarwch i wella mynediad i ofod a'r wybodaeth y mae'n ei ddarparu i blant a'u teuluoedd.

- **Mater F – Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys:** mae'n cyfarwyddo awdurdodau lleol i ymgynghori'n eang ar farn y plant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill ar ddarpariaeth chwarae a hamdden. Dylai awdurdodau lleol wneud pob ymdrech i ymgysylltu gyda grwpiau fydd, efallai, yn llai tebygol o ymgysylltu heb gymorth wedi ei deilwra. Mae hyn yn cynnwys plant anabl a phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

## Adolygiad 2025 o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a phlant anabl – cyflawniadau

- Ble y bu rhaglenni buddsoddi cyfalaf ar gael, cafwyd ystyriaeth a darpariaeth dda i faterion cynhwysiant. Mae pob awdurdod lleol yn adrodd am rywfaint o gamau gweithredu i greu gofod chwarae hygyrch wrth adnewyddu neu ddatblygu meysydd chwarae newydd.
- Yng nghyd-destun y thema Darpariaeth dan Oruchwyliaeth, mae pob ADCh yn cyfeirio at argaeledd hyfforddiant i staff ar ymarfer cynhwysol.
- Roedd llawer o ddarparwyr gwaith chwarae awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol oedd yn trosglwyddo rhaglen o ddarpariaeth, hefyd yn cynnig lleoedd â chymorth ar gyfer plant anabl neu ddarpariaeth gynhwysol. Cynhelir y mwyafrif o'r gweithgarwch hwn yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Mae'r lleoedd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis:
  - lefel y cymorth sydd ei angen (mae cymorth 1:1 yn heriol i ddarparwyr)
  - set sgiliau'r staff
  - hygyrchedd adeiladau a gofodau.

## Adolygiad 2025 o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a phlant anabl – heriau

- Diffyg cyllid rheolaidd a digonol yn y lefel o ddarpariaeth wedi'i staffio sydd ei hangen i ateb y galw
- Methu cadw staff profiadol ac arbenigol oherwydd cyflogau isel a diffyg y nifer rheolaidd o oriau gwaith sydd ar gael
- Diffyg adeiladau all ddarparu ar gyfer anghenion cynyddol y plant, megis parcio, lleoliad a hygyrchedd
- Pryder cynyddol ymhlith rhieni plant anabl sy'n arwain at boeni os caiff eu plant eu cynnwys mewn darpariaeth yn y gymuned
- Niferoedd cynyddol o blant niwrowahanol a phlant sydd ag ADY
- Disgwyliadau rhieni ynghylch y lefel o ddarpariaeth sydd angen
- Camddehongli'r termau gofod chwarae cynhwysol a hygyrch.

## Casgliad

Mae ateb anghenion chwarae pob plentyn yn dal i fod yn flaenoriaeth ar draws pob ADCh. Fodd bynnag, mae profiadau bob dydd i blant anabl a phlant sydd ag ADY yn amrywio. Dynododd canfyddiadau adroddiad *Yr hyn mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2025* anghydraddoldebau o ran chwarae mewn cymdogaethau oedd yn ymwneud ag anabledd. Plant anabl a phlant sydd ag ADY adroddodd am y lefel uchaf o anfodlonrwydd. Mae plant anabl (a'u rhieni) yn dal i deimlo bod eu dewisiadau'n llawer mwy cyfyngedig, gyda 13% yn dweud y gallen nhw brin chwarae yn unrhyw le. Yn ogystal, dywedodd 16% o ymatebwyr anabl bod oedolion ddim yn hoffi, neu'n casáu eu bod yn chwarae'r tu allan.

Mae gwyliau'r ysgol yn anodd i bob rhiant. Mae'n ymddangos nad yw plant anabl a niwrowahanol yn cael yr un dewisiadau a phlant niwronodweddiadol. O ganlyniad, bydd y gwyliau'n anodd iddynt oherwydd diffyg cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau a chyfoedion. Mae hyn yn niweidiol i'w datblygiad a'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y tymor a gall atal eu datblygiad cymdeithasol.

Mae pob ADCh yn cyfeirio at fuddsoddiad £5 miliwn Llywodraeth Cymru i wella ac adnewyddu gofodau chwarae, gyda nifer o awdurdodau lleol yn ymrwymo ariannu ychwanegol ar gyfer ardaloedd chwarae dynodedig. Mae'n ymddangos bod gwella cynhwysiant a hygyrchedd wedi bod yn rhan hanfodol o'r gwaith hwn.

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen gofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru Ionawr 2026